

Cyflwyniad

Mae'r celfyddydau'n bwysig i Wynedd. Maent yn ran bwysig a chreiddiol o'n hunaniaeth, o'n cymunedau a'n economi. Maent yn gwneud Gwynedd yn leoliad unigryw i fyw ynddo ac i ymweld. Fel partneriaid, rydym eisiau diogelu a datblygu'r celfyddydau i bobl Gwynedd heddiw ac i'r dyfodol.

Mae Gwynedd yn gartref i fwrlwm celfyddydol – o gwmnïau cynhyrchu o'r radd flaenaf i unigolion creadigol a mentrus, o theatrau a chanolfannau celfyddydol, arloesol i ganolfannau cymunedol; o orielau celf safonol i weithgareddau celfyddydol wedi eu gwreiddio yn ein cymunedau.

Wrth i'r sector gyhoeddus wynebu cyfnod o doriadau ac o flaenoriaethu ei wasanaethau; un o brif amcanion y Cynllun hwn yw adnabod rôl a phwrpas y sector celfyddydol yng Ngwynedd yn ogystal a'i flaenoriaethau. Gall rhai o amcanion y Cynllun gael eu gwreiddio heb adnoddau ychwanegol trwy newid ffyrdd o weithio; tra bo rhai blaenoriaethau'n ddibynnol ar gyllidebau.

Pwrpas Cynllun Celfyddydau Gwynedd

Yr hyn rydym, fel partneriaid celfyddydol yn awyddus i'w wneud trwy Gynllun Celfyddydau Gwynedd yw:

“Cydwethio i gefnogi pobl Gwynedd i gael mynediad at, mwynhau a phrofi'r celfyddydau – a hynny er lles unigolion, cymdeithas, yr economi a chymuned.”

Cyd-destun Strategol

Mae cyd-destun strategol cenedlaethol Cymru ar gyfer y celfyddydau'n cael ei osod allan yn [‘Golau yn y Gwyll’ – Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru](#). Mae'r strategaeth yn diffinio diwylliant fel: *y celfyddydau, cerddoriaeth, llenyddiaeth a threftadaeth, neu mewn geiriau eraill, yr holl weithgareddau creadigol sy'n rhoi pwrpas ac ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth i bobl*. Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o ran y Celfyddydau yw *annog rhagoriaeth yn y celfyddydau yng Nghymru a sicrhau eu bod ar gael i bawb*.

[Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn canolbwyntio ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson.

Y nod yw creu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, rwan ac yn y dyfodol ac er mwyn gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth. Mae'r Ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant sydd hefyd wedi eu mabwysiadu yng Nghynllun Gwynedd.

Yn [Ysbrydoli...Ein Strategaeth ar Gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru](#), mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n gosod ei strategaeth ar gyfer y celfyddydau rhwng 2015 a 2020. Rhoddir pwyslais ar 3 prif amcan – Creu - Cyrraedd - Cynnal. Y nod bob amser yw Cymru – gwlad greadigol.

Mae blaenoriaethau strategol Cyngor Gwynedd i'w gweld yn y ddogfen [Cynllun Gwynedd](#). Gan gyd-fynd â amcanion y Ddeddf Llesiant, mae'r Cynllun yn gosod y prif nod o *'Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud'*. Un o amcanion llesiant Gwynedd â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yw **Hyrwyddo ein diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau**.

Diffiniad: Mae'r celfyddydau'n weithgareddau fel cerddoriaeth, arlunio, llenyddiaeth, sinema a dawns, y gall pobl gymryd rhan ynddynt er mwynhad, neu i greu gwaith sy'n arddangos ystyron difrifol neu syniadau o harddwch¹.

Blaenoriaethau Gweithredu i'r Dyfodol

O ystyried y cyd-destun strategol ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn awyddus i dargedu ymdrech ac adnoddau yn y cyfnod nesaf ar lai o flaenoriaethau er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf ar bobl Gwynedd.

Bwriadwn ganolbwyntio ar 4 prif blaenoriaeth:

1. Llewyrch: addysg, sgiliau, gwaith, economi, gwirfoddoli, cyrchfan a naws am le
2. Iechyd a Lles: celfyddydau mewn iechyd a lles
3. Cymunedau cydlynus: adfywio trwy'r celfyddydau, balchder bro
4. Iaith a diwylliant byrlymus: safon uchel, cydweithio a'r Gymraeg

I gefnogi'r blaenoriaethau uchod, byddwn hefyd yn rhoi sylw i wreiddio'r nodau canlynol yn ein weithgareddau:

- i. Cydraddoldeb: ymateb i anghenion pobl Gwynedd, bylchau, cefnogi potensial
- ii. Cynaliadwyedd: Cynaliadwyedd amgylcheddol a phrosiectau cydweithio amgylcheddol
- iii. Cyfrifol yn y byd: arloesi, arbrofi, partneriaethau rhyngwladol

Gwireddu'r Blaenoriaethau Celfyddydol

Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth gyda phawb yn y sector y bydd modd gwireddu'r blaenoriaethau celfyddydol.

Er y sefyllfa gyllidol heriol a'r posibilrwydd o doriadau pellach i gyllidebau, rydym, fel partneriaid yn benderfynol o alluogi pobl Gwynedd i barhau i gael mynediad at, mwynhau a phrofi'r celfyddydau.

Bydd yn bosib cyflawni rhai blaenoriaethau a nodau trwy newid ffyrdd o weithio a chydweithio'n fwy effeithiol, tra mae'n bosib y bydd angen blaenoriaethu ymhellach ar weithredu'r elfennau sy'n ddibynnol ar gyllid ychwanegol o fewn y Cynllun hwn.

Trwy weithio mewn partneriaeth, byddwn yn targedu cronfeydd ariannol perthnasol i gynnal prosiectau partneriaeth unigryw i wireddu ein blaenoriaethau. Gall hyn gynnwys ceisiadau i gronfeydd y Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaethau a nawdd preifat.

Byddwn hefyd yn ceisio gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n cyllidebau celfyddydol er budd pobl Gwynedd gan hefyd dargedu cyfleon newydd megis Blynyddoedd Thema a Llwybrau Cenedlaethol Croeso Cymru neu ymgyrchoedd penodol gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn **Atodiad 1** yn amlinellu sut fyddwn yn gwireddu ein blaenoriaethau.

¹ Collins English Dictionary – diffiniad o 'The Arts' - *The arts are activities such as music, painting, literature, cinema, and dance, which people can take part in for enjoyment, or to create works which express serious meanings or ideas of beauty*

Blaenoriaethau: meysydd gweithredu

- 1. Lewyrch**
 - i. Cydweithio gyda darparwyr addysg, sgiliau ac hyfforddiant ar brosiectau celfyddydol i godi ymwybyddiaeth am eu cyfraniad at gyrhaeddiad addysgiadol a sgiliau
 - ii. Sicrhau bod darparwyr sgiliau a hyfforddiant yn ymateb i anghenion sgiliau ac arbenigedd yn y sector
 - iii. Cefnogi'r sector creadigol i ddatblygu i'w lawn botensial i gyflogi pobl leol a chynnig cyfleon hyfforddiant, gwirfoddoli, profiad gwaith a chyflogaeth
 - iv. Uchafu cyfleon i farchnata Gwynedd fel cyrchfan gyda naws am le, diwylliant a iaith arbennig i bobl Gwynedd ac ymwelwyr.
- 2. Iechyd a Lles**
 - i. Cydweithio gyda'n gilydd a gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Gwasanaethau Cymdeithasol a darparwyr iechyd a lles er mwyn gwneud y celfyddydau'n ran ganolog o'r profiad, y gofal a'r driniaeth i gleifion trwy e.e. therapi celfyddydol, gwaith ataliol, presgripsiynau celfyddydol a phrosiectau celfyddydau mewn iechyd a lles
 - ii. Hyrwyddo buddion iechyd, lles a hapusrwydd sy'n deillio o fwynhau'r celfyddydau i bobl Gwynedd trwy weithgareddau celfyddydau mewn iechyd a lles, gwaith ymchwil presennol a newydd ac ymgyrchoedd neu ddigwyddiadau penodol.
- 3. Cymunedau cydlynus**
 - i. Cydweithio i wreiddio'r celfyddydau mewn prosiectau adfywio cymdeithasol ac economaidd ar draws y Sir a'r defnydd o'r celfyddydau wrth adfywio gan gymunedau eu hunain
 - ii. Cefnogi rôl y celfyddydau a digwyddiadau wrth fywiocau ein cymunedau led-led Gwynedd a chreu balchder bro a naws am le.
- 4. Iaith a diwylliant byrlymus**
 - i. Safon uchel ar draws Gwynedd
 - ii. Adnabod prosiectau cydweithredol a ffynonellau nawdd amgen er mwyn hyrwyddo a gwarchod ein diwylliant, ein iaith a'n treftadaeth
 - iii. Rôl ganolog i'r Gymraeg yn y celfyddydau yng Ngwynedd.

Nodau gweithredu blaenoriaethau

Bydd y nodau canlynol yn cael eu hymgorffori wrth weithredu ar ein blaenoriaethau:

- i. Cydraddoldeb**
 - a) Ymateb i anghenion holl bobl Gwynedd gyda chydaddoldeb i bawb - yn benodol y rhai sy'n cael eu tan-gynrychioli
 - b) Adnabod ac ymateb i fylchau darpariaeth celfyddydol (ieithyddol / ffurf artistig / daearyddol / carfan) ar draws Gwynedd
 - c) Cefnogi gweithgareddau a phrosiectau i gefnogi potensial cymunedau o angen ac i geisio creu cyfleon yn ein cymunedau e.e. Y Rhaglen Cyfuno.
- ii. Cynaliadwyedd**
 - a) Parchu'r amgylchedd naturiol a manteisio ar gyfleon i gydweithio gyda chyrrff amgylcheddol a bioamrywiaeth.
- iii. Cyfrifol yn y Byd**
 - a) Creu cyfleon o'r newydd i weithio gyda phartneriaid ar draws y byd a manteisio ar gysylltiadau a llysgenhadon i'r ardal.

Rolau Partneriaid

Mi fydd pob partner yn cyfrannu at wireddu blaenoriaethau celfyddydol Gwynedd. Gellir diffinio'r canlynol fel y prif bartneriaid a'u rolau:

Partner	Lefel	Rôl
Llywodraeth Cymru	Cenedlaethol,	Gosod Cyfeiriad Strategol + cyllidwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Rhanbarthol	Cyfeiriad Strategol, partner + cyfleon darparu comisiwn
Cyngor Celfyddydau Cymru	Cenedlaethol,	Cyfeiriad Strategol + cyllidwr
Cyngor Gwynedd + Awdurdodau Lleol Eraill (Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Economi a Chymuned, Yr Amgylchedd ayb)	Sirol	Cyfeiriad Strategol, partner + cyllidwr trwy nawdd neu gomisiynau penodol
Gwynedd Greadigol	Sirol	Cefnogaeth weithredol, rhwydweithio, eirioli + nawdd
Ymddiriedolaeth Datblygu Storiol	Sirol	Cefnogaeth weithredol ac o bosib cyfleon uchafu nawdd i'r dyfodol
Darparwyr Celfyddydol	Cenedlaethol, Sirol + Lleol / Cymunedol	Gweithredu comisiynau neu flaenoriaethau, cyllid cyfatebol, mynediad a mwynhad pobl Gwynedd
Cynhyrchwyr Celfyddydol	Cenedlaethol, Sirol + Lleol / Cymunedol	Gweithredu comisiynau neu flaenoriaethau, cyllid cyfatebol, mynediad a mwynhad pobl Gwynedd
Pobl Gwynedd a'u cymunedau	Sirol, Lleol / Cymunedol	Defnyddwyr a chyfranogwyr, cynhyrchwyr, trefnwyr, cyllidwyr posib

Mesur Llwyddiant

O ystyried ein pwrpas craidd:

“Cydweithio i gefnogi pobl Gwynedd i gael mynediad at, mwynhau a phrofi’r celfyddydau – a hynny er lles unigolion, cymdeithas, yr economi a chymuned.”

Mae’r canlynol yn cynnig eu hunain fel mesuryddion craidd ar gyfer dadansoddi a mesur llwyddiant ein gweithgarwch:

- Nifer prosiectau cydweithredol yn cefnogi mynediad i’r celfyddydau
- Nifer perfformiadau (byw/ ffilm)
- Nifer gweithgareddau cyfranogi
- Nifer gweithgareddau celfyddydau mewn Iechyd a Lles
- Nifer gweithgareddau celfyddydau sy’n cefnogi dysgu
- Nifer gweithgareddau celfyddydau sy’n cefnogi adfywio a’r economi
- Nifer sy’n cymryd rhan (cyfranogi) yn y celfyddydau
- Nifer cyfleon gwirfoddoli yn y celfyddydau
- Nifer gweithgareddau’n targedu bylchau / carfannau wedi’ tan-gynrychioli
- Nifer astudiaethau achos / fideos
- Maint mewn £ buddsoddiad celfyddydol ychwanegol ddenir i’r Sir
- % boddhad cyfranogwyr yn y celfyddydau
- % cyfranogwyr yn credu eu bod yn cael lles o’u profiad celfyddydol
- % cyfranogwyr yn teimlo bod y celfyddydau wedi cefnogi eu profiad dysgu
- % gwirfoddolwyr yn teimlo bod gwirfoddoli wedi hybu eu datblygiad
- % pobl Gwynedd yn teimlo bod y celfyddydau’n bwysig

Bydd llwyddiant y Cynllun hwn yn cael ei fesur yn flynyddol mewn cyfarfod o’r sector lle bydd y Cynllun Gweithredu (Atodiad 1) a blaenoriaethu’r flwyddyn honno’n cael eu dadansoddi a’u mesur.

Bydd yr un cyfarfod hefyd yn cytuno ar raglen waith a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ddilynol.